**Adolygiadau Effeithiolrwydd Llywodraethu 2019: Cynllun Gweithredu Integredig – ar 01 Mai 2021**

| | Argymhelliad | Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| PC 1 | **Bod y Cyngor yn ystyried ei strategaeth gyffredinol ar gyfer rheoli a llywodraethu is-gwmnïau ac asedau'r Brifysgol. Dylai'r ystyried gynnwys a ddylid ymdrin â'r asedau'n unedau gweithredol dan gyfrifoldeb uwch aelod o'r staff sy'n adrodd wrth y Pwyllgor Strategaeth, Cynllunio, Adnoddau a Llywodraethu ac wrth y Cyngor.** | Wedi ei ystyried yn y Pwyllgor Strategaeth, Cynllunio, Adnoddau a Llywodraethu Gorffennaf 2019. Cytunwyd mewn egwyddor y dylid trin yr asedau yn unedau gweithredol o dan gyfrifoldeb uwch aelod o'r staff sy'n adrodd wrth y Cyngor. | | |
| | | Swyddogion i ddwyn ymlaen drefniadau rheoli diwygiedig. | Yr Is-Ganghellor | Medi 2019 **Cwblhawyd** |
| | | Penderfyniad ffurfiol i weithredu newidiadau llywodraethu i'w gyflwyno i'r Cyngor trwy'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu; Ordinhadau i'w diwygio wedyn | Clerc | Tachwedd 2019 **Cwblhawyd** |
| | | Clerc/Cyfarwyddwr Cyllid i ddilyn diddymiad strwythur cwmni'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd | Clerc / Cyfarwyddwr Cyllid | Hydref 2019 **Cwblhawyd** |
| PC 3 | **Y dylid adolygu cynllun y prosiect ar gyfer symud tuag at uno'n llawn a'r gofrestr risg ac wedi hynny dylai'r Cyngor eu monitro'n uniongyrchol.** | Y cynllun a'r gofrestr risg wedi'u diweddaru i'w cyflwyno gerbron cydgyfarfod y ddau Gyngor ym mis Tachwedd 2019 ac wedyn i'w hadolygu bob dwy flynedd. Ym mis Mawrth 2021 penderfynodd y Cynghorau archifo'r gofrestr risg. | DIG (CaCh) / Clerc | Tachwedd 2019 **Cwblhawyd** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PCYDDS 1 | **Bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n adolygu strwythur y pwyllgorau sefydlog a'r is-bwyllgorau, gyda golwg ar gael strwythur diwygiedig a llai o faint yn ei le erbyn dechrau 2019/20.** | Adolygiad i'w ddatblygu gan Gadeirydd y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu mewn ymgynghoriad â'r IG a chadeiryddion pwyllgorau sefydlog; argymhellion cychwynnol i'w cymeradwyo gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2019. Adolygwyd y strwythur diwygiedig gwanwyn 2021.<br><br>Cylch gorchwyl pwyllgorau newydd i'w gymeradwyo gan Gynghorau PC a PCYDDS<br><br>Newidiadau ordinhadau i'w cymeradwyo gan Gynghorau PC a PCYDDS trwy'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | Cadeirydd y Cyngor / Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu<br><br>Clerc<br><br>Clerc | Mehefin 2019 **Cwblhawyd**<br><br>Medi 2019 **Cwblhawyd**<br><br>Tachwedd 2019 **Cwblhawyd** |
| PCYDDS 2 | **Rhoddir ystyriaeth benodol i'r canlynol:**<br><br>• **rhinweddau cyflwyno eitemau strategol penodedig ac eitemau allweddol eraill (megis adroddiadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'r Gofrestr Risg) yn uniongyrchol i'r Cyngor, gan neilltuo amser penodol ar yr agenda ar gyfer y drafodaeth;**<br><br>• **a ellid cynnwys busnes y tri is-bwyllgor presennol o fewn busnes eu rhiant-bwyllgorau, yn enwedig petai llwyth gwaith y rhiant-bwyllgorau'n cael ei leihau drwy gyflwyno eitemau penodol yn uniongyrchol i'r Cyngor (gweler uchod);** | Cytunwyd gan y Cyngor Gorffennaf 2019.<br><br>Cytunwyd gan y Cyngor Gorffennaf 2019.<br><br>Cytunwyd gan y Cyngor Gorffennaf 2019. | Clerc<br><br>Clerc<br><br>Clerc | Gorffennaf 2019 **Cwblhawyd**<br><br>Gorffennaf 2019 **Cwblhawyd** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • **er gwaethaf y dymuniad i leihau nifer y pwyllgorau sefydlog, a fyddai buddion ynghlwm â sefydlu pwyllgor sefydlog i roi trosolwg ar faterion academaidd; a buddion chwilio am brofiad addysg uwch fel blaenoriaeth yn achos yr ymarfer recriwtio nesaf ar gyfer aelodau newydd ar y Cyngor;** | | | Gorffennaf 2019 **Cwblhawyd** |
| | • **a ellid cyflawni mwy o integreiddio â strwythurau llywodraethu Prifysgol Cymru a'r colegau o fewn Grŵp PCYDDS;** | Cytunwyd gan Gynghorau PC a PCYDDS Gorffennaf 2019. | Clerc | Gorffennaf 2019 **Cwblhawyd** |
| | • **mynegi'r dulliau dwyieithrwydd sydd i'w mabwysiadu gan y Cyngor a'r pwyllgorau sefydlog;** | I ddechrau, y Clerc i ddarganfod dewis iaith aelodau. Trafodaeth bellach i'w chynnal yng Nghyngor Medi 2019. Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu Hydref 2019 a gytunodd i ymestyn y defnydd o gyfieithu i bob pwyllgor sefydlog yn 2019/20 ac i adolygu ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. | Clerc | Hydref 2019 **Cwblhawyd** |
| | • **y nifer o gyfarfodydd y Cyngor y dylid eu trefnu bob blwyddyn;** | Nifer y cyfarfodydd i'w chynyddu o dri i bump. | Clerc | Gorffennaf 2019 **Cwblhawyd** |
| | • **aelodaeth gyfredol y pwyllgorau sefydlog, er mwyn sicrhau bod sgiliau a phrofiad aelodau'n cael eu defnyddio er y gorau.** | Materion i'w hystyried a'u trin trwy adolygu strwythur y pwyllgorau. | Clerc | Gorffennaf 2019 **Cwblhawyd** |
| PC 9 | **Bod y Cyngor yn ystyried lleihau maint y Pwyllgor Archwilio ac adolygu aelodaeth y Pwyllgor hwnnw er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol o ran arbenigedd.** | Fe'i hystyriwyd gan y ddau Gyngor Gorffennaf 2019 yng nghyd-destun cynigion ar gyfer un pwyllgor archwilio sy'n gwasanaethu'r naill Gyngor a'r llall. Gan nodi materion | Clerc | Gorffennaf 2019 **Cwblhawyd** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | hanesyddol o ran cworwm, cytunwyd na fyddid yn ceisio lleihau maint ar hyn o bryd.<br><br>Aelod annibynnol gyda chefndir ariannol / cyfrifyddol i'w wahodd i ymuno â'r pwyllgor newydd. | | |
| PC 2 | **Bod y Cyngor yn ystyried mabwysiadu cynllun dirprwyo sy'n nodi'n eglur brif ddibenion, cwmpas awdurdod a chyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau pob pwyllgor sefydlog ac unigolyn sy'n gweithredu ag awdurdod y Cyngor.** | Cynlluniau dirprwyo cynhwysfawr i'w llunio ar gyfer y ddau Gyngor | Clerc | Medi 2019<br>**Cwblhawyd** |
| PCYDDS 3 | **Bod amserlen y Cyngor ar gyfer 2019/20 yn cynnwys adegau penodol ar gyfer digwyddiadau cynllunio a briffio.** | Dau ddiwrnod briffio i'w cynnwys yn amserlen y pwyllgorau ar gyfer y ddau Gyngor. | Clerc | Gorffennaf 2019<br>**Cwblhawyd** |
| | | Y clerc i gynnwys cyflwyniadau cyn y cyfarfod yng nghynlluniau gwaith y Cyngor. (Meysydd blaenoriaeth a nodwyd eisoes: cyd-destun AB; cyd-destun polisi strategol; deall tablau cynghrair). | Clerc | Medi 2019<br>**Cwblhawyd** |
| | | Rhai o giniawau'r Cyngor ar ôl cyfarfodydd i fod yn rhai 'eistedd' i roi rhagor o amser i aelodau sgwrsio. Cytunodd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ym Mai 2020 i beidio â mynd ymlaen â'r argymhelliad hwn ar hyn o bryd | Clerc | Medi 2019<br>**Cwblhawyd** |
| PCYDDS 4 | **Bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ystyried a fyddai budd ynghlwm â mynegi'n fwy ffurfiol y ffyrdd y gallai, neu y dylai,** | Y clerc i lunio papur ar gyfer ystyriaeth gychwynnol gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu. Ymdriniwyd â'r mater hwn drwy | Clerc | Mai 2020<br>**Cwblhawyd** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **aelodau'r Cyngor fod yn rhan o waith ehangach y Brifysgol.** | gymeradwyo manyldeb swydd gynhwysfawr, newydd ar gyfer aelodau annibynnol. | | |
| PCYDDS 5<br>PC 5 | **Bod agendâu a phapurau ategol y Cyngor a'r pwyllgorau sefydlog yn cael eu trefnu fel eu bod:**<br><br>• **yn gwahaniaethu rhwng materion i'w trafod a'r rheini a fydd fel arfer yn cael eu cymeradwyo heb drafodaeth;** | Y Clerc i addasu fformat yr agenda i grwpio eitemau a 'gymeradwywyd heb drafodaeth' mewn un lleoliad ar yr agenda. | Clerc | Medi 2019<br>**Cwblhawyd** |
| | • **yn cyflwyno pob eitem agenda drwy daflen flaen sy'n gwneud y canlynol yn eglur:**<br>o **yn darparu crynodeb o'r dogfennau ategol (gan gyfeirio at leoliad unrhyw ffynonellau gwybodaeth ychwanegol pan fo'n briodol);**<br>o **yn nodi'r penderfyniad sydd ei angen gan y Cyngor.** | Templed y daflen flaen i gael ei ddiwygio i ddal y meysydd hyn, ac er mwyn eu gwneud yn fwy eglur y dylai awduron nodi'r pwyntiau allweddol i'w hystyried gan lywodraethwyr. | Clerc | Medi 2019<br>**Cwblhawyd** |
| | | Taflen flaen i'w gwneud yn eglur na ellir darparu papurau sy'n hwy na phedair tudalen ond pan fydd y daflen flaen yn rhoi crynodeb gweithredol. | Clerc | Medi 2019<br>**Cwblhawyd** |
| | | Papurau i'w dosbarthu o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod; y Clerc i gael y pŵer i wrthod papurau a gyflwynir ar ôl y dyddiad terfynol | Clerc i roi gwybod i swyddogion | Medi 2019<br>**Cwblhawyd** |
| | • **pan fo'n bosibl, yn darparu adroddiad ysgrifenedig yng nghyswllt pob eitem, gan ganiatáu mwy o amser i aelodau amgyffred gwybodaeth ymlaen llaw ac iddynt gyfeirio ato wedi'r cyfarfod;** | Adroddiadau ysgrifenedig gan y Cadeirydd a'r Is-Ganghellor i'w cyflwyno. | Clerc / Pennaeth Staff | Medi 2019<br>**Cwblhawyd** |
| | • **o ran y Cyngor, pan fo'n bosibl, yn cychwyn pob sesiwn gyda chyflwyniadau, nad ydynt yn rhan ffurfiol o'r cyfarfod ond sy'n rhoi cyfleoedd i aelodau ddysgu mwy am** | Wedi'i gwmpasu yn yr ymateb i Argymhelliad 3. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **ddatblygiadau mewn meysydd allweddol o'r Brifysgol, a'u trafod.** | | | |
| PCYDDS 6<br><br>PC 6 | **Bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ystyried a fyddai, yng nghyd-destun Argymhelliad 5, yn dymuno gwneud y canlynol:**<br><br>• **pennu hyd hiraf ar gyfer papurau;**<br>• **mabwysiadu system ar gyfer agendâu o faint mawr a fydd yn golygu neilltuo meysydd craffu penodol i aelodau unigol ymlaen llaw.**<br><br>**Bod y Cyngor yn adolygu amseriad ac amlder cyfarfodydd yn erbyn y llif busnes, gyda golwg ar sicrhau bod modd rhoi papurau ar gael mewn da bryd.** | Wedi'i gwmpasu yn yr ymateb i Argymhelliad 5.<br><br>I fod yn fater at ddisgresiwn y Cadeirydd.<br><br>I'w ddwyn ymlaen yng nghyd-destun cyflwyno strwythur pwyllgorau integredig a'r gwaith o lunio cynlluniau gwaith newydd | <br><br><br><br><br><br>Clerc | Medi 2019<br>Cwblhawyd<br><br>Gorffennaf 2019 (amserlen cyfarfodydd )<br>Cwblhawyd<br><br>Tachwedd 2019 (cynlluniau gwaith)<br>Cwblhawyd |
| PCYDDS 7 | **Bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ystyried a fydd angen, yn ei bryd, diwygio Ordinhad er mwyn cyfoethogi'r cyfleoedd am aelodaeth ar gyfer staff o leoliadau eraill.** | I'w ystyried yng nghyd-destun trefniadau'r dyfodol ar gyfer penodiadau llywodraethwyr staff.<br><br>Papur i Bwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu Hydref 2019. | Clerc | Hydref 2019<br>Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PCYDDS 8 | **Bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ystyried ffyrdd y gellid annog a chefnogi cyfraniadau aelodau staff ar y Cyngor ymhellach.** | Trafodwyd yn y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ac i'w ddwyn ymlaen gan y Cadeiryddion. Y seddau yng nghyfarfodydd y Cyngor i'w trefnu i sicrhau nad yw'r staff na'r llywodraethwyr annibynnol yn eistedd ar wahân. | | Mehefin 2019 **Cwblhawyd** |
| PCYDDS 9 | **Yn gysylltiedig ag Argymhelliad 8 uchod ac yn rhan o'r adolygiad o strwythur y pwyllgorau sefydlog a'r is-bwyllgorau, bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ystyried rhinweddau creu cyfleoedd i aelodau staff ar y Cyngor ddod yn aelodau o bwyllgorau sefydlog allweddol.** | Cytunwyd gan y Cyngor Gorffennaf 2019. | Clerc | Awst 2019 **Cwblhawyd** |
| PCYDDS 10 | **Yn rhan o'r adolygiad o strwythur y pwyllgorau sefydlog a'r is-bwyllgorau, bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n creu cyfleoedd i aelod-fyfyrwyr ar y Cyngor ddod yn aelodau o bwyllgorau sefydlog allweddol.** | Cytunwyd gan y Cyngor Gorffennaf 2019. | Clerc | Awst 2019 **Cwblhawyd** |
| PCYDDS 11 | **Bod y Cyngor yn caniatáu i aelod o staff Undeb y Myfyrwyr fynd yn gwmni i aelod-fyfyrwyr o'r Cyngor i gyfarfodydd o'r Cyngor a'r pwyllgorau (gan nodi y byddai hawl i'r aelod o staff fod yn bresennol pan oedd aelod-fyfyriwr hefyd yn bresennol yn unig).** | Undeb y Myfyrwyr i'w wahodd i enwebu aelod o'r staff i fabwysiadu'r rôl ar gyfer cyfnod prawf o un flwyddyn yn y lle cyntaf. | Clerc / Prif Swyddog Gweithredol Undeb y Myfyrwyr | Medi 2019 **Cwblhawyd** |
| PCYDDS 12 | **Bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ystyried a fyddai budd ynghlwm ag amserlennu mwy o gyfleoedd i aelodau gynnal trafodaethau heb fod swyddogion yn bresennol ar gyfer eitemau priodol.** | Dim angen camau gweithredu.<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yr argymhelliad a theimlai fod agwedd agored dda a chryn dryloywder rhwng swyddogion ac aelodau. Cytunodd aelodau y dylai'r arfer presennol lle gellid | | Mehefin 2019 **Cwblhawyd** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gofyn i swyddogion adael cyfarfod ar gyfer trafodaeth ar fater penodol barhau fel y mae ar hyn o bryd ar ddisgresiwn y cadeirydd, ond nad oedd angen unrhyw bolisi ffurfiol. | | |
| PCYDDS 13 | **Cyhoeddir cofnodion anghyfyngedig y Cyngor o 2019/20 ymlaen.** | Diffiniad clir o ystyr 'cyfyngedig' ac 'anghyfyngedig' i'w greu i'r ddau Gyngor. Y Clerc i addasu fformat yr agenda i grwpio eitemau 'cyfyngedig' ac 'anghyfyngedig' ar wahân ar yr agenda dros gyfnod prawf.<br><br>Y swyddfa i lunio cofnodion i'w cyhoeddi o fis Medi 2019 ymlaen (wedi eu gohirio ers hynny tan fis Gorffennaf 2020).. | Clerc | Medi 2019<br>**Cwblhawyd**<br><br>**Cwblhawyd** |
| PCYDDS 14<br>PC 7 | **Y gofynnir i aelodau, ar ddechrau pob cyfarfod, nodi unrhyw eitemau ar yr agenda y mae ganddynt fuddiant deuol ar eu cyfer.** | Taflen flaen ar gyfer eitem buddiant deuol i'w diwygio i wneud datganiadau penodol yn ofynnol ar ddechrau cyfarfod. | Clerc | Medi 2019<br>**Cwblhawyd** |
| PC 8 | **Bod y Cyngor yn datblygu polisïau ysgrifenedig ar reoli gwrthdaro buddiannau posibl yng nghyswllt rolau aelodau'r Cyngor a'r byrddau 'asedau' sy'n gorgyffwrdd, a hefyd yng nghyswllt posibilrwydd 'cworymau gwrthdrawiadol'.** | Datganiad ysgrifenedig ar reoli gwrthdaro buddiannau posibl a 'chworymau gwrthdrawiadol' i'w lunio i'r naill Gyngor a'r llall trwy'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu (gan nodi y bydd y 'rolau sy'n gorgyffwrdd' ynghylch yr asedau yn dod i ben o ganlyniad i weithredu Argymhelliad 1 PC). | Clerc | Hydref 2019<br>**Cwblhawyd** |
| PCYDDS 15 | **Bod y Cyngor yn ystyried lleihau'i faint yn gynyddol dros amser a thrwy ymddeoliad arfaethedig aelodau cyfredol, gan gofio bob amser yr angen i gynnal set sgiliau gytbwys a chynyddu amrywiaeth.** | Bydd dau lywodraethwr annibynnol yn peidio â bod yn aelodau o Gyngor PCYDDS ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn argymell i'r Cyngor na ddylid chwilio am bobl yn eu lle ar hyn o bryd. Y strategaeth ar gyfer recriwtio llywodraethwyr annibynnol a llywodraethwyr staff yn y dyfodol i'w hystyried gan y Pwyllgor | Clerc / Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | Hydref 2019<br>**Cwblhawyd** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Enwebiadau a Llywodraethu ym mis Hydref 2019 | | |
| PCYDDS 16<br><br>PC 10<br><br>PC 11 | **Y trefnir yr adolygiad effeithiolrwydd mawr nesaf ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021/22, ac ar gylch tair blynedd wedi hynny; a bod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'n ystyried y cynnydd yn erbyn argymhellion yr adolygiad yn ei gyfarfod cyntaf ymhob blwyddyn academaidd.**<br><br>**Bod y Pwyllgor Strategaeth, Cynllunio, Adnoddau a Llywodraethu yn ystyried cynnydd yn erbyn argymhellion yr adolygiad yn ei gyfarfod cyntaf ymhob blwyddyn academaidd.**<br><br>**Gan nodi bod yr adolygiad effeithiolrwydd mawr nesaf o Gyngor PCYDDS wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021/22, fod Cyngor PC yn ystyried ar yr adeg honno a ydy adolygiad effeithiolrwydd pellach o drefniadau llywodraethu PC yn angenrheidiol neu'n briodol.** | Y rhaglen i'w chynnwys yn ysgrifenedig yn y cynlluniau gwaith ar gyfer y ddau Gyngor a'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.<br><br>Adolygiadau cynnydd i'w cynnwys yn ysgrifenedig yn y cynlluniau gwaith ar gyfer y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | Clerc | Hydref 2019<br>**Cwblhawyd** |
| PCYDDS 17 | **Yn lle'r hunanwerthusiadau gan y pwyllgorau sefydlog a seilir ar holiadur bob dwy flynedd, y ceir trafodaeth fwy cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr adroddiad blynyddol a lunnir gan y Clerc, gyda'r canlyniadau ac unrhyw argymhellion yn cael eu hadrodd yn fersiwn terfynol yr adroddiadau a baratoir ar gyfer y Cyngor.** | Trafodaethau cyfannol i'w cynnwys yn ysgrifenedig yng nghynlluniau gwaith / trafodaethau adroddiadau blynyddol pwyllgorau sefydlog. | Clerc | Tachwedd 2019<br>**Cwblhawyd** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PC 4 | **Bod ffynhonnell gwybodaeth gyfredol ddynamig a hawdd ei defnyddio i aelodau'r Cyngor yn cael ei datblygu.** | I'w ddwyn ymlaen yng nghyd-destun datblygiadau MyDay i'r ddau Gyngor a diwygiadau i wefan PC.<br><br>Gwefannau llywodraethu a gwybodaeth MyDay wedi eu cwblhau haf 2020. | Clerc / Pennaeth Staff | Hydref 2019 **Cwblhawyd** |